
Dysgu peiriant a deallusrwydd artiffisial – TM358

Patrwm cyflwyno:

O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r cymhwyster

Mae TM358 yn fodiwl gorfodol fel rhan o R38 BSc (Anrhydedd) Gwyddor Data. Gellir hefyd ei astudio fel rhan o Q62 BSc (Anrhydedd) Cyfrifiadura a TGCh.

Disgrifiad o'r modiwl

Bydd y modiwl hwn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i'r myfyrwyr o sail systemau dysgu drwy beiriant a'r egwyddorion sylfaenol y mae systemau dysgu drwy beiriant yn gweithredu arnynt, ac yn canolbwyntio'n benodol ar systemau dysgu dwfn. Caiff y myfyrwyr brofiad ymarferol o ddylunio, hyfforddi, dadansoddi a rhoi systemau dysgu dwfn ar waith gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dysgu drwy beiriant â setiau data yn y byd go iawn. Mae'r modiwl yn elfen orfodol o'r BSc Gwyddor Data ac yn opsiwn mewn amrywiaeth o gymwysterau Cyfrifiadura a TGCh. Disgwylir bod y myfyrwyr wedi astudio cymhwyster M269 cyn dechrau ar TM358.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd berthnasol neu brofiad cyfatebol ym maes defnyddio systemau dysgu drwy beiriant
- naill ai'r gallu i raglennu gan ddefnyddio iaith raglennu Python neu'r gallu i raglennu gan ddefnyddio iaith raglennu orchmynnol arall, a bod yn barod i ddysgu Python
- y gallu i gefnogi myfyrwyr gydag agweddau ymarferol y modiwl, gan gynnwys amrywiaeth o adnoddau dysgu drwy beiriant a defnyddio llyfrau nodiadau Jupyter
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddeall systemau dysgu drwy beiriant fel systemau technegol-gymdeithasol, gan gynnwys y ragfarn mewn perthynas â chreu a defnyddio systemau o'r fath a sut mae hynny'n ymwneud â materion cymdeithasol ehangach.
- bod yn frwdfrydig ac yn wybodus am ddulliau dysgu drwy beiriant fel sgil allweddol yn yr 21ain ganrif
- bod yn gyfarwydd â'r materion moesegol a chyfreithiol sy'n ymwneud â defnyddio data mewn AI a dysgu drwy beiriant

Disgwylir i chi wneud y canlynol:

Gwybodaeth ychwanegol

Yn ogystal â marcio tri aseiniad a gaiff eu marcio gan diwtor, bydd hefyd angen i chi annog a monitro gweithgarwch ymgysylltu â myfyrwyr yn rhagweithiol mewn sawl gweithgaredd a thrafodaeth ar ffurf fforymau, y gall rhai ohonynt gyfrannu at farciau aseiniadau, a helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer yr asesiad diwedd modiwl. Bydd pob deunydd yn ymddangos ar y sgrin a chaiff pob tiwtorial ei ddarparu ar-lein. Bydd yr asesiad diwedd modiwl, a fydd yn cynnwys adroddiad o tua 1,500 o eiriau yn ogystal ag elfennau ymarferol sy'n defnyddio'r technegau a'r adnoddau a ddysgwyd yn y modiwl, yn cael ei farcio fel gweithgaredd ar wahân.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.0

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.